

Yr Ysgol Gymraeg, Coedlan Plascrug, Aberystwyth, Ceredigion SY23 1HL  
Ffôn / Tel: 01970 617613 Ffacs / Fax: 01970 636742

Prifathro / *Headteacher*: Mr R. Clive Williams

**Annwyl Rieni / Gwarcheidwaid, Staff a Disgyblion** - gobeithio eich bod yn cadw'n iach ac yn ddiogel ac yn parhau i ddilyn y canllawiau wrth ymateb i her y Coronafeirws.

**Diolch i bawb** - hoffwn ddiolch i holl staff, disgyblion a rhieni/ gwarcheidwaid am eich gwaith caled yn ystod yr hanner tymor cyntaf yma o ddsygu o adref. Wrth edrych drwy'r ffeiliau yn Teams mae'n amlwg fod nifer fawr ohonoch yn cyflawni gwaith diddorol a chyffrous iawn.

**Trafodaethau Lles - Galwadau ffôn** - diolch i chi am eich ymatebion yn ystod ein galwadau ffôn yr wythnos hon, cofiwch fod croeso i chi gysylltu os oes angen unrhyw gymorth addysgol neu gymdeithasol arnoch.

**Gweithio yn Teams** – mae'r ymateb i weithgareddau ar Teams ym Mlynnyddoedd 1 – 6 wedi bod yn galonogol iawn. Yn ystod ail hanner y tymor hoffwn annog rhagor ohonoch i weithio o fewn Teams yn hytrach nag anfon gwaith yn ôl i'r athrawon ar e bost. Serch hynny rwy'n ymwybodol fod rhai ohonoch yn cael trafferthion wrth weithio'n ddiogel felly peidiwch â phoeni os nad yw Teams yn opsiwn ymarferol i chi.

**Meithrin a Derby**n daliwch ati i wneud eich gorau wrth ymateb i'r tasgau ar wefan yr ysgol.

**Cynllunio ar gyfer dychwelyd i'r ysgol - Holiadur i FLWYDDYN 6 YN UNIG** - ar gais yr Awdurdod Addysg rydym yn ceisio casglu gwybodaeth am farn rhieni / gwarcheidwaid ynghylch anfon eich plant yn ôl i'r ysgol. **Fel yr ydych yn ymwybodol nid oes unrhyw benderfyniad wedi ei wneud o safbwynt ail agor ysgolion ar hyn o bryd ac nid oes gennym unrhyw wybodaeth bellach i'w rannu gyda chi.** Fodd bynnag mae angen i ni ddechrau CYNLLUNIO ar gyfer yr amser pan fydd yr ysgolion yn ail agor rhywbryd yn y dyfodol. Bwriad yr holiadur yw cael rhywfath o syniad cyffredinol o'ch barn ar hyn o bryd. Yn naturiol mi fydd gennych nifer fawr o gwestiynau na fyddai modd i ni eu hateb gan fod ein cynlluniau yn ddibynnol ar arweiniad y Llywodraeth. Gobeithio y bydd modd i chi ateb yr holiadur sydd wedi ei e bostio atoch cystal ag y gallwch gyda'r wybodaeth gyfyng iawn sydd gennych, mae'r holiadur yn ddiennw.

Mi fyddaf yn danfon llythyr atoch drwy wefan yr ysgol bob dydd Gwener er mwyn eich diweddarau a'ch hysbysu o unrhyw newidiadau i'r drefn. Gallwch hefyd e bostio ar [prif@ysgolgybraeg.ceredigion.sch.uk](mailto:prif@ysgolgybraeg.ceredigion.sch.uk)

Hoffwn ddiolch i Eira am y gwaith celf hyfryd

Cofion gore atoch,

R C Williams, Pennaeth,

22/05/2020



Gwefan  
www.ysgolgymraeg.cymru



e-bost  
prif@ysgolgybraeg.ceredigion.sch.uk

Yr Ysgol Gymraeg, Coedlan Plascrug, Aberystwyth, Ceredigion SY23 1HL  
Ffôn / Tel: 01970 617613 Ffacs / Fax: 01970 636742

Prifathro / *Headteacher*: Mr R. Clive Williams

**Dear Parents / Guardians, Staff and Pupils** - I hope you are keeping healthy and safe and continuing to follow the guidelines in responding to the challenge of Coronavirus.

**Thank you all**- I would like to thank all staff, pupils and parents / guardians for your hard work during this first half term of home learning. As I look through the files in Teams it is clear that many of you are doing some very interesting and exciting work.

**Welfare Discussions - Phone Calls** - thank you for your responses during our phone calls this week, please feel free to get in touch if you need any educational or social assistance.

**Working in Teams** - the response to activities in Teams in Years 1 - 6 has been very encouraging. During the second half of term I would like to encourage more of you to work within Teams rather than sending work back to the teachers by email. However I am aware that some of you have difficulties working digitally so don't worry if Teams is not a viable option for you.

**Nursery and Reception** - Please continue to do your best in responding to the tasks on the school website.

**Planning for returning to school - YEAR 6 Questionnaire ONLY** - at the request of the Education Authority we are trying to gather information on the views of parents / guardians about sending your children back to school. **As you are aware, no decision has been made regarding the re-opening of schools at this time and we have no further information to share with you.** However, we need to start PLANNING for the time when schools re-open at some point in the future. The aim of the questionnaire is to get a general idea of your current views. You will naturally have many questions that we are not be able to answer as our plans are dependent on Government guidance. We hope you will be able to answer the questionnaire that has been e mailed to you as best as possible with the very limited information you have, the questionnaire is anonymous.

I will send you a letter through the school website every Friday to update you and inform you of any changes to the procedure. You can also email at [prif@ysgolgybraeg.ceredigion.sch.uk](mailto:prif@ysgolgybraeg.ceredigion.sch.uk)

I would like to thank Eira for the lovely art work.

**Best wishes to you all**

**R C Williams, Headteacher,**

**22/05/2020**

